# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Hydref 2017

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu ar Gyllid Cymru

(09.30-10.45) (Tudalennau 1 - 23)

Giles Thorley, Prif Weithredwr, Cyllid Cymru

Gareth Bullock, Cadeirydd, Cyllid Cymru

Kevin O'Leary, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyllid Cymru

Michael Owen, Cyfarwyddwr Buddsoddi Grŵp, Cyllid Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-24-17(p1) Adroddiad blynyddol Cyllid Cymru ar gyfer 2016-17 (Saesneg yn unig)

EIS(5)-24-17(p2) Nodyn Esboniadol ar Gyfrifon (Saesneg yn unig)

EIS(5)-24-17(p3) Trosolwg Strategol Banc Datblygu Cymru 2017

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru

(Tudalennau 24 - 25)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-24-17(p4) Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch Masnachfraint y Rheilffyrdd a Metro De Cymru (Saesneg yn unig)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Blaenraglen Waith Ddrafft - Gwanwyn 2018

(10.45-11.15) (Tudalennau 26 - 29)

Dogfennau atodol:

Blaenraglen Waith Ddrafft - Gwanwyn 2018 (Saesneg yn unig)

**Ôl-drafodaeth breifat** (11.15-11.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Explanatory Note on Accounts in accordance with discussion at the Economy, Infrastructure and Skills Committee on 25th October 2017**

As was previously explained, the Finance Wales Group comprises three distinct business activities:

a) a corporate and administrative activity, which provides support to the rest of the Finance Wales Group. This function is operated with the aim of being cost neutral and/or breaks even.

b) a fund management activity which operates primarily in Wales, but with a small operation in England and generates a modest surplus.

c) a fund holding activity, which is much more variable from an accounting perspective and is influenced by a number of inputs including, inter alia, European Grant Income, provisions for bad and doubtful debts and the sale of equity assets.
N.B. Any capital returned and profit on a fund is used to repay the initial capital invested from WG and third parties, and any remaining surplus can be used by the WG to invest in the next fund, creating a sustainable source of funding for Welsh businesses.

Our results are a consolidation of all these activities.

You may recall that at March 2016, the Finance Wales Group was showing a deficit on the year of £1,336,000. This has now transformed to a surplus of £16,175,000. The table below attempts to explain how this has come about:

| | £000s |
|---|---|
| Mar-16 | (1,336) |
| Increase in income | 85 |
| Provisions for Bad Debts | (9,862) |
| Increase in administration expenses | (189) |
| | (11,302) |
| Recognition of ERDF Income | 16,212 |
| Reduction in WG core funding | (468) |
| Profit on Sale of Equity investments | 3,740 |
| | 8,182 |
| Reduction in interest received | (231) |
| Reduction in interest paid | 286 |
| Other gains | 8,488 |
| Mar-17 | 16,725 |

Highlighted below are the four most significant changes.

**Provisions for Bad Debts**

Finance Wales is required to maintain a realistic valuation of both its debt and equity portfolios. Inevitably this means that in addition to revaluing equity holdings where there is evidence of growth, we have to down value both debt and equity investments based on the likelihood of repayment. In this case the level of provisions increased by £9,862,000 on the previous year. The 2016 provisions were unusually low and the 2017 increase brings provisions more in line with the longer term norm.

**Recognition of European Regional Development Fund Income**

Under accounting rules we are required to recognise this grant money as income, at the time we make investments from any fund backed by these resources. The Wales Business Fund began to make investments during the year in question and thus triggered the release of significant additional funding.

**Profit on Sale of Equity Assets**

During the Financial Year, eight equity investments were disposed of, generating a surplus of £3.30m [on the invested amount?].

In the previous Year, five such disposals were made generating a deficit of £0.44m

**Other gains**

As you will be aware Finance Wales administers the Help to Buy (Wales) fund on behalf of the Welsh Ministers. This fund lends up to 20% of the purchase price of a new property to a purchaser and recovers 20% of the proceeds of the property upon sale, or when the owner wishes to take 100% ownership.

The overall value of the Help to Buy (Wales) loans are indexed annually and any variation in value of the property, in this case an increase, is required to be recognised through Finance Wales accounts and this "profit" contributes to the group surplus. At this stage this is not a cash profit as the cash will not be received, until the property is sold or the owner takes 100% ownership, which may not take place for many years.

This surplus is however, wholly repayable to the Welsh Government in order to repay the Financial Transactions Capital cash advanced to make the original loan and any surpluses would be repatriated to the Welsh Government.

This has created a taxable gain which has been offset against other loan losses and thus no tax was payable. As all surpluses to the Help to Buy (Wales) fund belong to the Welsh Government, from 2018 the Welsh Government will recognise the gain directly, removing the item from the Finance Wales income statement. The accounts for 2018 will not include any income related to house price growth and will also have a reversal of the 2017 income.

Of these four major variances, only the Profit on the Sales of Equity Assets and possibly the level of provisioning can be seen as descriptors of Finance Wales' performance, rather than the consequence of accounting conventions.

We trust this note is of help but of course we will be pleased to take your questions and observations on 25thOctober 2017.

Banc

BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

# Banc Datblygu Cymru

*Ased cenedlaethol strategol ar gyfer Cymru fwy ffyniannus*

Gorffennaf 2017

# Rhagair

*Er mwyn i Gymru ffynnu, mae angen i'n busnesau ffynnu*
Pan fo ein busnesau ni'n ffynnu, maent yn creu nifer uwch o swyddi o ansawdd gwell. Mae'r trethi maent yn ei dalu yn cryfhau ein cyllid cyhoeddus. Mae'r bobl a gyflogir ganddynt yn cryfhau ein cymunedau. Pan fo busnesau Cymru yn gryf, mae Cymru yn gryf.

*Er mwyn i'n busnesau ni ffynnu, mae angen cyllid arnynt*
Yn y gorffennol, byddai busnesau Cymru wedi troi at fanciau er mwyn cael mynediad at gyllid. Ond ers 2008, mae cyswllt wyneb yn wyneb gyda banciau wedi lleihau ac mae'r gefnogaeth ar gyfer buddsoddiadau sydd â mwy o risg ynghlwm iddynt wedi cael ei dynnu yn ôl, megis ar gyfer dechrau busnes, ac felly mentrau bach i ganolig (BBaCh) sydd wedi dioddef fwyaf. Ar yr un pryd, mae'r pwysau ar arian cyhoeddus wedi cyfyngu ar allu'r Llywodraeth i ymyrryd. Mae Cymru wedi elwa o gefnogaeth o Ewrop yn y gorffennol, ond mae penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu y bydd arian yr UE yn dod i ben yn 2023. Yn ystod cyfnod ansicr a heb ffynonellau eraill o gyllid, gall llawer o fusnesau ei chael hi'n anodd i frwydro i oroesi a thyfu.

*Bydd Banc Datblygu Cymru yn llenwi'r bwlch rhwng y cyllid y mae'r sector breifat yn ei gyflenwi a'r galw am gyllid gan fusnesau*
Ar y naill law, fe fydd yn gwasanaethu busnesau Cymru, gan roi'r cyfalaf sydd ei angen arnynt i dyfu. Ar y llaw arall, bydd yn gwasanaethu Llywodraeth Cymru, drwy gyfeirio arian cyhoeddus i'r mannau hynny ble y gall gael yr effaith fwyaf – ar raddfa fwy, ar gyflymder cyflymach, ac mewn ffordd gynaliadwy.

*Mae lansiad Banc Datblygu Cymru yn nodi newid sylweddol yn y cyllid a gefnogir gan y Llywodraeth ar gyfer busnesau yng Nghymru*
Bydd Banc Datblygu Cymru yn benthyg ac yn buddsoddi mwy o arian, drwy ystod ehangach o gynhyrchion ariannol a bydd gwybodaeth yn cael ei fwydo i mewn i'r rheini drwy greu Uned Wybodaeth. Bydd yr Uned Wybodaeth yn ceisio deall y farchnad yng Nghymru ac anghenion busnesau yn well. Bydd hyn yn sicrhau bod y gallu yno i ymateb yn gyflym i'r newidiadau ym maes cyflenwi a galw yn y farchnad yng Nghymru gyda chynnyrch addas wedi'i deilwra. Bydd y Banc Datblygu'n gweithio'n agosach gyda Busnes Cymru, er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru yn cael cymorth a chyngor ochr yn ochr â chyllid. Wrth wneud hynny, bydd yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau dyfodol ffyniannus i Gymru.

**Giles Thorley**
*Prif Weithredwr*

# *Uchafbwyntiau*
# Banc Datblygu Cymru

Cynhyrchu mwy nag

**un biliwn o bunnoedd**

o gymorth buddsoddi ar gyfer Cymru dros y pum mlynedd nesaf

Helpu busnesau i greu a diogelu mwy na

**5,550** o swyddi y flwyddyn

Buddsoddi dros

**£80m**

mewn BBaCh o fewn y pum mlynedd nesaf

Cynyddu'r cymorth ar gyfer microfusnesau o

**£6m i ddros £40m**

**Yn denu mwy na £460m**

o fuddsoddiad sector preifat o fewn pum mlynedd

# Pam fo Cymru angen Banc Datblygu

### *Mae benthyca o'r sector breifat yn crebachu*

Fe wnaeth Adroddiad Cam 2 Adolygiad o Fynediad at Gyllid 2013 nodi bwlch sylweddol rhwng y cyllid sydd ei angen ar ein busnesau a'r cyllid y mae'r farchnad yn barod i'w ddarparu. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, fe wnaeth yr Astudiaeth Ddichonoldeb i Greu Banc Datblygu Cymru 2015 ganfod bod y bwlch cyllido hwn yn mynd yn ehangach, gyda'r sefyllfa yng Nghymru yn waeth nag yn Lloegr a'r Alban.

### *Mae 99% o'r 250,000 o'r busnesau sydd yng Nghymru naill ai'n fusnesau bach a chanolig neu'n ficro-fusnesau sy'n cyflogi llai na 9 o bobl*

Ers 2008 mae busnesau bach wedi cael trafferth i ddod o hyd i gyfalaf twf. Nawr, fwy nac erioed, mae angen i fusnesau wybod y byddant yn parhau i fod yn gallu cael mynediad at gyllid mawr ei angen. Nid dim ond y busnesau mwyaf newydd sydd angen mwy o gefnogaeth. Canfu adolygiad Rowlands bod y bwlch cyllido yn hyd yn oed yn fwy llym ar gyfer busnesau bach a chanolig sydd wedi eu hen sefydlu sy'n chwilio am rhwng £250,000 a £10 miliwn.

### *Mae penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd yn creu mwy o ansicrwydd*

Mae ansicrwydd economaidd yn debygol o'i gwneud yn fwy anodd i fusnesau gael mynediad at gyllid. Mae penderfyniad y DU i adael yr UE yn creu cyfleoedd a bygythiadau. Mae angen i fusnesau Cymru gael mynediad at gyllid er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a mynd i'r afael â'r bygythiadau. Mae Cyllid Cymru wedi gallu cynorthwyo busnesau yng Nghymru trwy ddefnyddio rhaglenni wedi eu hariannu gan yr UE ers 2001, ond mae penderfyniad y DU i adael yr UE yn golygu na fydd unrhyw arian pellach gan yr UE ar gael ar ôl i'r rhaglen bresennol ddod i ben yn 2023. Bydd y cyllid cynaliadwy a ddarperir drwy gyfrwng y banc datblygu yn cynorthwyo i gynnal hyder busnes drwy gyfnod ansicr.

### *Mae llywodraethau ar draws y byd yn defnyddio banciau datblygu i hyrwyddo datblygiad economaidd*

Ers 2008, maent wedi cymryd rôl wrthgylchol, gan gynyddu graddfa eu gweithrediadau benthyca wrth i fanciau masnachol leihau'r raddfa. Byddai Banc Datblygu Cymru yn dod yn gonglfaen ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gyrru cynnydd twf hirdymor, a chreu a diogelu swyddi o ansawdd uwch.

# Beth fydd y Banc Datblygu yn ei wneud – *Trosolwg*

*Cenhadaeth Banc Datblygu Cymru yw datgloi potensial economi Cymru trwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol yn y gofod rhwng y galw a'r farchnad. Ei weledigaeth yw y bydd yn adnodd unigryw i Gymru, gan greu gwerth hirdymor drwy gyflawni gwasanaethau ariannol – gan wella economi ddeinamig, gystadleuol.*

*Bydd yn benthyg ac yn buddsoddi cronfeydd yn uniongyrchol gyda busnesau yng Nghymru*

Bydd Banc Datblygu Cymru yn cynhyrchu enillion ar fuddsoddiadau mewn Busnesau yng Nghymru a all wedyn gael eu hail-fuddsoddi mewn busnesau pellach. Bydd busnesau yn gallu dod yn uniongyrchol atom ni i gael mynediad at y cyllid sydd ei angen arnynt. Byddwn yn ei gwneud yn flaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid drwy gyfrwng perthynas wyneb-i-wyneb a'r ymrwymiad i ddeall busnesau Cymru a'u hanghenion.

*Bydd hefyd yn denu arian ychwanegol gan drydydd partïon*

Er mwyn cynyddu effaith y buddsoddiadau a wnawn, byddwn yn adeiladu perthynas gyda sefydliadau ariannol preifat a chyhoeddus ar draws y DU a byddwn yn codi proffil Cymru yn fyd-eang fel lle o'r radd flaenaf i wneud busnes a buddsoddi yn gynaliadwy. Bydd buddsoddwyr o'r sector breifat yn cael eu hannog i fuddsoddi mewn busnesau unigol, ond hefyd ar lefel cronfa.

*Er mwyn cynyddu mynediad at wasanaeth y Banc, byddwn yn buddsoddi mewn profiad digidol gwell*

Byddwn yn adeiladu gwefan newydd gyda phrofiad y cwsmer yn ganolog i'w dyluniad. Byddwn hefyd yn adeiladu llwyfan digidol a fydd yn caniatáu i fusnesau wneud cais am gyllid ar-lein, cofrestru i gael diweddariadau a chynnal sgwrs gyda ni'n uniongyrchol. Pan fo busnesau yn gwneud ceisiadau am arian, bydd ein system ar gyfer rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd yn integreiddio'r rhain gyda'n prosesau mewnol, ac felly bydd busnesau yn cael profiad esmwyth di-dor.

*Bydd yn ategu'r sector breifat, nid cystadlu â hi*

Bydd Banc Datblygu Cymru yn bodoli i ariannu busnesau hyfyw na all neu a wrthodir gwasanaeth iddynt gan y farchnad. Er enghraifft, bydd y Banc yn gweithio gyda busnesau cyfnod cynnar, gan gynnwys busnesau newydd, lle mae'r farchnad yn amharod i gymryd risg. Pan fyddwn yn dod ar draws busnesau a fyddai'n cael eu cefnogi yn well gan gyllid prif ffrwd, byddwn yn eu cyfeirio at ddarparwyr eraill. Mewn llawer o achosion, bydd BDC yn buddsoddi ochr yn ochr â'r sector breifat i greu pecyn ariannu hyfyw.

*Bydd yn canolbwyntio ar anghenion busnesau micro i ganolig ym mhob rhanbarth o Gymru*

Bydd Banc Datblygu Cymru yn canolbwyntio ar micro-fusnesau a busnesau bach a chanolig. Ond bydd ganddo hefyd yr hyblygrwydd i gefnogi busnesau mwy o faint. Bydd yn gweithredu polisi ar draws 'Cymru gyfan', gan fonitro effaith y buddsoddiadau y mae'n ei wneud i wneud yn siŵr bod pob rhanbarth o Gymru yn elwa.

*Bydd yn gweithredu model hunan-gyllidol*

Bydd y Banc Datblygu yn hunangynhaliol ac ni fydd angen cymorth ariannol ar gyfer ei gostau gweithredu craidd gan Lywodraeth Cymru a bydd y defnydd a wnaiff o ailgylchu cronfeydd a strategaethau buddsoddiadau cadarn yn gwneud y gorau o effaith arian trethdalwyr ac yn rhoi gwerth am arian wrth gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth.

# Yr hyn fydd y Banc Datblygu yn ei wneud *ar gyfer busnesau yng Nghymru*

### *Bydd mwy o arian ar gael ar gyfer busnesau yng Nghymru*

Rhagwelir y bydd Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi £400 miliwn hyd at 2021/22. Bydd cyllid y sector breifat yn fwy na dyblu'r ffigwr hwn i £860 miliwn. Pan fydd cynllun Cymorth i Brynu – Cymru yn cael ei ystyried, bydd yr effaith gyffredinol dros bum mlynedd yn fwy na £1bn o fuddsoddiad yn economi Cymru.

### *Bydd yn lansio cyllid newydd ac yn gwella'r rhai presennol*

Fydd Banc Datblygu Cymru yn gweithio yn gyson i ddatblygu confreydd a chynyrch newydd i fodloni anghenion busnesau yng Nghymru. Fydd yn cynyddu'n sylweddol argaeledd cyllid a draws amrywiaeth eang o ddatrysiadau ariannol i sicrhau gallu cwmnïau i gael mynediad at y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn.

### *Bydd yn cynnig pecynnau mwy penodol a hyblyg*

Bydd gan Banc Datblygu Cymru yr hyblygrwydd i deilwra ei gefnogaeth i'r hyn mae busnesau ei angen. Gall hyn gynnwys cyfuniad o gyllid dyled ac ecwiti neu gyfalaf fwy hirdymor (amyneddgar) o hyd at 10 mlynedd. Bydd BDC yn cydnabod fod pob cynnig busnes yn unigryw a bydd yn darparu cymorth sy'n diwallu eu hanghenion penodol.

### *Bydd yn cynnig 'arian yn ogystal â rheolaeth'*

Yn ogystal â gwneud buddsoddiadau, byddwn yn canolbwyntio ar wneud y gorau o'r adenillion ar y buddsoddiadau hynny – ar gyfer y busnesau eu hunain, ac i sicrhau bod gennym arian i ail-fuddsoddi yn y dyfodol. Rydym yn darparu cymorth parhaus i fusnesau ar ôl buddsoddi drwy weithio'n agos gyda'u timau rheoli drwy gyfrwng rheolwyr cyfrif ymroddedig, cymryd swyddi ar Fwrdd busnesau buddsoddiad ecwiti allweddol a'u cyfeirio at gymorth pellach yn ôl yr angen.

| Cronfeydd presennol *(Gorffennaf 2017)* | Ystod buddsoddi | Cyclch bywyd busnes | | | | Amseriad | | | Math o fuddsoddiad | | Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Busnesau ifanc | Tyfiant | Olyniaeth | Troi-o-amgylch | Hyd at 10 mlynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 18 mis | Benthyciad | Ecwiti | Nid BBaCh |
| Cronfa Benthyg Micro Fusnesau | **£1k – £50k** | ● | ● | | | ● | | | ● | | |
| Cronfa Olyniaeth Rheoli | **£500k – £3m** | | | ● | | | ● | | | ● | ● |
| Cronfa Twf Cyfalaf Cymru | **£50k – £2m** | ● | ● | | | | | ● | ● | | ● |
| Cronfa Busnes Cymru | **£50k – £2m** | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | |
| Cronfa Eiddo Cymru | **£250k – £4m** | ● | ● | | | | | ● | ● | | |
| Cronfa Sbarduno Technoleg | **£50k – £150k** | ● | | | | ● | | | | ● | |
| Buddsoddiadau Menter Technoleg | **£50k – £1m** | ● | ● | | | ● | | | | ● | |
| Cronfa Achub ac Ailstrwythuro | **£25k – £2m** | | | | ● | | ● | | ● | | |

# Beth fydd y banc datblygu yn ei wneud – *Y cynnig ehangach*

### *Bydd yn darparu ystod ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau*

Bydd Banc Datblygu Cymru yn parhau i ehangu ei gylch gorchwyl y tu hwnt i'w fusnes craidd o ddarparu benthyciadau a buddsoddiadau uniongyrchol i fusnesau. Bydd yn adeiladu ar lwyddiant y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru drwy ddarparu gwasanaethau buddsoddi i gefnogi ystod eang o flaenoriaethau'r Llywodraeth.

### *Bydd cymorth busnes y Llywodraeth a'r ddarpariaeth cyllid wedi eu hunioni yn well*

Bydd buddsoddiad i mewn i fusnesau bach a chanolig yn cael ei wella'n sylweddol lle bo cyllid a chymorth busnes yn cael eu hunioni. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, bydd Banc Datblygu Cymru yn gweithio'n agosach gyda Busnes Cymru, gan ei gwneud yn symlach ac yn haws i fusnesau gael cymorth ochr yn ochr â chyllid.

### *Bydd yn creu Uned Wybodaeth newydd i yrru gwell dealltwriaeth o fusnes a'u hanghenion*

I sicrhau fod arian cyllido a chefnogaeth yn cyrraedd lle mae ei angen, mewn ffordd sy'n gweithio i fusnesau, byddwn yn creu Uned Wybodaeth newydd, adran ymchwil gyda'r dasg o ddadansoddi yn fanwl beth yw anghenion ac ymddygiadau busnesau micro i ganolig yng Nghymru. Bydd yr Uned Wybodaeth yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd a fydd yn olrhain y cyflenwad a'r galw am gyllid. Byddant hefyd yn ein helpu i fesur effaith buddsoddiadau'r Banc, ar fusnesau ac ar economi Cymru. Byddant yn dîm agored a chydweithredol, yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Prifysgol Caerdydd a sefydliadau academaidd eraill, a byddant yn rhannu gwybodaeth am y farchnad gydag ysgolion a chyhoeddiadau busnes. Bydd hyn yn arfogi Banc Datblygu Cymru fel ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i anghenion y farchnad sy'n newid.

### *Bydd yn darparu canolbwynt ar gyfer twf busnes yng Nghymru*

Bydd BDC yn gweithio gyda banciau prif ffrwd a banciau heriol, llwyfannau ariannu torfol, a mentrau cydfuddiannol a chymdeithasol, gan gynnwys cydweithrediadau ac undebau credyd, i gynyddu maint cyffredinol y cyllid sydd ar gael ar gyfer busnesau yng Nghymru. Trwy rwydwaith newydd, byddwn yn nodi ac yn annog buddsoddwyr Angel newydd posibl ac yn dod â nhw at ei gilydd i mewn i syndicadau er mwyn cynyddu buddsoddiad Angel yng Nghymru.

# Sut fydd y Banc datblygu yn cyflawni dros Gymru

Bydd Banc Datblygu Cymru yn dod yn gonglfaen ar gyfer cyflwyno cynhyrchion ariannol yn y sector gyhoeddus, gan gefnogi busnesau micro i ganolig yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad o gyllid. Bydd yn hyrwyddo datblygiad economaidd drwy gyfrwng model cyflwyno hyblyg sy'n ymateb i anghenion y farchnad tra'n parhau i ddarparu gwerth am arian am arian cyhoeddus. Bydd yn cyflawni amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru drwy gyflawni targedau perfformiad a darparu rheolaeth dros fuddsoddiadau a gwasanaethau cymorth ar draws Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd.

### *Bydd Banc Datblygu Cymru yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei amcanion polisi ar hyd a lled Cymru.*

Bydd yn cefnogi twf a datblygiad economaidd, fel bod pob sector a rhannau o Gymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu.

### *Bydd yn buddsoddi ar gyfer effaith cymdeithasol yn ogystal ag effaith economaidd*

Byddai Banc Datblygu Cymru yn anelu at fod yn fuddsoddwr effaith amlwg, gan fonitro dangosyddion perfformiad allweddol megis lleihau allyriadau carbon, cyflogaeth mewn ardaloedd difreintiedig a grwpiau wedi'u tangynrychioli yn flaenorol.

### *Bydd yn sicrhau mai Cymru fydd y lle mwyaf deniadol yn y DU i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau gychwyn, tyfu a llwyddo*

Bydd yn ased cenedlaethol strategol, gan roi mantais gystadleuol i Gymru o ran denu, cadw ac adeiladu busnesau bach.

### *Bydd yn darparu gwasanaethau rheoli buddsoddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru gyfan*

Bydd Banc Datblygu Cymru yn rhoi ei wasanaethau cymorth ariannol ar gael i bob adran o Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys y potensial ar gyfer cefnogi seilwaith ar raddfa fwy neu brosiectau twf gwyrdd.

### *Yn wahanol eto i fenthycwyr masnachol, byddwn yn sicrhau bod gan Fanc Datblygu Cymru bresenoldeb corfforol ar hyd a lled Cymru*

Er y bydd ein buddsoddiad mewn TG yn caniatáu i fusnesau gael mynediad at  wasanaethau Banc Datblygu Cymru o bell, mae angen i'r Banc hefyd ddarparu lefel o ryngweithio personol sy'n ei wneud yn wahanol i'r sector breifat. Bydd hyn yn gyrru unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â lleoliadau swyddfeydd. Rydym yn ymchwilio i'r syniad o greu rhwydwaith o 'asiantaethau' ledled Cymru, rhwydwaith o gynghorwyr ar draws pob rhanbarth, sydd yn hyddysg yn y broses o wneud cais ar-lein, ac sy'n deall yr hyn y mae Banc Datblygu Cymru yn ei gynnig.

### *Cam arwyddocaol fydd sefydlu pencadlys newydd yn Wrecsam*

Bydd hyn yn golygu cyfuno ein swyddfeydd yng Ngogledd Cymru yn Wrecsam. Ar y dechrau, rydym yn rhagweld y bydd 20 o bobl yng Ngogledd Cymru, a fydd yn cynyddu i 50 o fewn dwy flynedd ar ôl lansiad y Banc. Bydd Wrecsam yn cael ei ystyried fel y safle a ffefrir ar gyfer yr holl wasanaethau newydd wrth iddynt gael eu sefydlu, yn ddarostyngedig i anghenion busnes ac ystyriaethau gwerth am arian.

### *Bydd buddsoddiadau llwyddiannus yn awr yn ariannu rhagor o fuddsoddiadau yn y dyfodol*

Bydd yr arian yr ydym yn ei fenthyg ac yn ei fuddsoddi yn llifo yn ôl i mewn i'r Banc drwy adenillion ar ein buddsoddiadau. Bydd hyn yn ei dro yn creu cronfeydd cynaliadwy i gefnogi mwy o fusnesau yng Nghymru yn y dyfodol.

### *Mae hyn yn golygu mwy o gyllid ar gyfer busnesau yng Nghymru ac economi Cymru*

Bydd Banc Datblygu Cymru yn cynyddu'r cyllid i economi Cymru, gan greu effaith o fwy na £1 biliwn dros bum mlynedd, (gan gynnwys Cymorth i Brynu – Cymru), gyda'r potensial i godi mwy o arian sector breifat.

### *Bydd brand newydd sbon yn gosod safonau newydd ym meddyliau'r gymuned fusnes yng Nghymru*

Mae angen i Fanc Datblygu Cymru fod yn frand sy'n golygu rhywbeth i fusnesau. Mae'r enw wedi cael ei dewis i adlewyrchu gweithgareddau busnes y sefydliad newydd. Ond bydd hefyd yn gwneud ei bwrpas, ei gylch gorchwyl a'i ymagwedd yn amlwg. Mae banciau datblygu yn cael eu hadnabod fel sefydliadau sydd â safonau uchel o dryloywder ac atebolrwydd.

### *Bydd yn helpu busnesau i greu a diogelu miloedd o swyddi*

Drwy gynyddu benthyca a buddsoddi ym musnesau Cymru, bydd Banc Datblygu Cymru yn helpu busnesau i gynyddu nifer y swyddi a grëir ac a ddiogelir o'r 3,000 presennol y flwyddyn i 5,500 o fewn pum mlynedd. Bydd Banc Datblygu Cymru hefyd yn canolbwyntio'n amlwg ar ddarparu swyddi o ansawdd uwch hefyd.

### *Bydd yn ysgogi mwy o arloesedd a chynhyrchiant*

Gan ganolbwyntio ar greu mwy o swyddi o ansawdd uchel, bydd Banc Datblygu Cymru yn gyrru mwy o arloesedd a chynhyrchiant i mewn i economi Cymru, gan wneud defnydd gwell o boblogaeth fedrus wedi'i haddysgu'n dda.

### *Mae hynny'n golygu Cymru fwy diogel a llewyrchus*

Drwy gyflawni sector breifat fwy llwyddiannus a deinamig, creu mwy o gyfoeth a mwy o swyddi o ansawdd uchel, bydd Banc Datblygu Cymru yn gyrru trawsnewidiad Cymru i fod yn genedl ffyniannus, mentrus a chynaliadwy, a fydd yn cael effaith barhaol ar les cenedlaethau'r dyfodol.

# Sefydlu Banc Datblygu Cymru

*Mae'r trawsnewidiad o Cyllid Cymru i Fanc Datblygu Cymru ar y gweill.*

### *Bydd Banc Datblygu Cymru yn cael ei adeiladu ar sylfeini cadarn*


Bydd dull creu Banc Datblygu Cymru yn arloesol. Byddai'n cynrychioli newid sylweddol o fodel busnes cyfredol Cyllid Cymru. Ond er gwaethaf hynny, mae'n risg isel risg a chost-effeithiol o ran cyflawni. Bydd hynny'n cael ei gyflawni oherwydd fe fydd yn cael ei adeiladu ar sylfeini cadarn – defnyddir arferion gorau profedig banciau datblygu o gwmpas y byd, a sgiliau, gwybodaeth a phrofiad Cyllid Cymru.

### *Bydd yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Cyfarwyddwyr annibynnol, gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru*

I ddechrau bydd y Bwrdd yn cynnwys chwe Chyfarwyddwr Anweithredol a dau Gyfarwyddwr Gweithredol. Bydd yn cael ei gadeirio gan Gareth Bullock, cyn Gyfarwyddwr Gweithredol Grŵp 'Standard Chartered Bank'. Mae gan Gareth ganddo dros 30 mlynedd o brofiad yn y sector gwasanaethau ariannol. Bydd y tîm Gweithredol yn cael ei arwain gan y Prif Weithredwr Giles Thorley, cyn Brif Weithredwr y FTSE 100 a Swyddog Buddsoddi gyda dros 25 mlynedd o brofiad ym maes cyllid a rheoli corfforaethol ar lefel uwch. Mae cydbwysedd y tîm Gweithredol yn cynnwys profiad cyfunol o dros 100 mlynedd o ddarparu gwasanaethau benthyca a chymorth i'r gymuned BBaCh.

### *Y risg mwyaf hanfodol y mae'r Banc newydd yn ei hwynebu yw sicrhau'r cyllid sydd ei angen arno*

Mae'r model busnes yn dibynnu ar y Banc yn cyrraedd cynnig ar raddfa fwy a chyrhaeddiad ehangach yn gyflym. Dyna sut y bydd yn cael yr effaith ar economi Cymru a ddisgrifir yn yr achos busnes. I wneud hwn yn bosib, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gymeradwyo sawl cronfa newydd.



# Llinell amser a datblygu yn y dyfodol

## 2013

Archwiliodd yr adolygiad *Mynediad at Gyllid* argaeledd cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh) yng Nghymru.

## 2015

Edrychodd *Ymchwiliad Cyllid Cymru* y Cynulliad Cenedlaethol i mewn i rôl weithredol Cyllid Cymru ar gyfer y dyfodol

Daeth yr *Astudiaeth Ddichonoldeb i mewn i Greu Banc Datblygu Cymru* i'r casgliad y dylai 'sefydliad newydd gael ei greu i reoli arian cyhoeddus BBaCh yng Nghymru a ddylai ymdebygu i fanc datblygu cyhoeddus.'

## 2016

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Banc Datblygu Cymru yn flaenoriaeth allweddol i'r pumed Cynulliad.

## Gorff 2017

Cymeradwywyd achos busnes Cyllid Cymru ar gyfer creu Banc Datblygu Cymru gan y Cabinet.

## Hyd 2017

Lansio BDC ochr yn ochr â brand newydd a lleoliad prif swyddfa newydd.

## Ion 2018

Prif swyddfa yn weithredol yn y Gogledd.

twf buddsoddiad parhaus

## 2020

£80m wedi'i fuddsoddi'n flynyddol gan greu £172m o effaith gyda cyd-fuddsoddi a 5500 o swyddi wedi'i greu a diogelu.

**Bydd y datgeliad a ganlyn yn weithredol o'r adeg pan fydd Banc Datblygu Cymru yn dod yn weithredol:**
Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoli Darbodus (ARhD) nac yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri o is-gwmnïau sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Noder os gwelwch yn dda nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar ein gwefan.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Russell George AM
Chair of the Economy, Infrastructure & Skills Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

**Reference:** HVT/2754/caf
**Date issued:** 17 October 2017

Dear Russell

## The Rail Franchise and South Wales Metro

Thank you for your letter of 10 October. I welcome the contribution that my previous report on "*Welsh Government investment in rail services and infrastructure"* made in informing the Committee's work and am grateful for your positive comments about the briefing provided by my study team. In a similar vein, I am aware that the PAC intends to highlight to the Committee issues arising from my February 2017 report on "*Welsh Government oversight of further-education colleges' finances and delivery"* given its potential relevance to your budget scrutiny work. Wales Audit Office staff would be happy to discuss that report in more detail with the clerking/research team or with the Committee itself.

I have been following the reported developments regarding the procurement process for the franchise/Metro although, at this stage, we have not undertaken any specific follow-up work. I will be considering the merits and possible timing of future work in this area when the procurement process is complete. A further study could take a variety of different forms, for example looking back at the outcome of the procurement, examining the performance of the new franchise early in its lifetime or looking more specifically at progress with the infrastructure work required to deliver the Metro. We are also currently considering how we might best audit the development of City Deal arrangements, which in the case of the Cardiff Capital Region encompasses the Metro.

Finally, I would like to take this opportunity to draw to your attention other work in progress that may be of interest to the Committee, in particular our review of the Welsh Government's business finance arrangements. This work follows on from my July 2016 report on the "*The Welsh Government's funding of Kancoat Ltd"* and the subsequent PAC report. Our overall focus is on whether the Welsh Government is managing its business finance activity effectively and achieving the expected outcomes. We plan to complete the work in two phases. The first, which we aim to publish around the end of the 2017/18

financial year, will consider the Welsh Government's strategic approach and set out an analysis of expenditure and outputs/outcomes data. The second phase will review in more detail the operational delivery of business finance, and its associated processes and controls. Again, Wales Audit Office staff would be happy to discuss this work with the clerking/research team.

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**AUDITOR GENERAL FOR WALES**

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon